**Cynlluniau Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau – Mynegiant o Ddiddordeb**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi'i wahodd i gyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru yn rhan o'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Nod pennaf cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yw annog rhagor o bobl i deithio mewn modd cynaliadwy, yn ogystal â gwella diogelwch yn y gymuned ehangach, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae ysgolion.

Does dim modd gwarantu y bydd cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gael y flwyddyn ariannol nesaf, fodd bynnag, mae'r Cyngor wrthi'n paratoi rhaglen o gynlluniau i sicrhau bod y Cyngor yn barod i gyflwyno ceisiadau, pe bydden ni'n cael ein gwahodd i wneud hynny. Hoffai'r Cyngor achub ar y cyfle yma i wahodd Cynghorau a Grwpiau Cymuned i gyflwyno cais am gynllun a ffurflen asesu os ydyn nhw o'r farn bod gofyniad i ddatblygu cynllun fydd yn annog rhagor o bobl i deithio mewn modd cynaliadwy, megis beicio, cerdded neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae nifer o fuddiannau i'w cael o ddewis i wneud teithiau byr mewn modd cynaliadwy. Gall teithiau byr a chynaliadwy helpu i leihau llygredd aer a thagfeydd, a bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw ysgol a chymuned. Gall cerdded a beicio i'r ysgol, siopau lleol a chyfleusterau lleol yn y gymuned helpu i wella iechyd meddwl a chorfforol a lles yn gyffredinol gan gynyddu gweithgarwch corfforol a chynhwysiant cymdeithasol ehangach.

Hoffech chi fod yn rhan o'r cynllun yma a/neu gael eich ystyried ar gyfer cynigion ariannu yn y dyfodol a fydd yn arwain at gyflwyno cynllun gwella yn eich cymuned? Os felly, cwblhewch ffurflen gais y cynllun a'r ffurflen asesu a'u dychwelyd yn unol â'r canllawiau wedi'u hatodi.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **dydd Llun 14 Gorffennaf 2025** drwy e-bostio DiogelwchyFfyrdd@rctcbc.gov.uk neu drwy'r post at: Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd CF37 4TH

Caiff y Cyngor gyflwyno nifer cyfyngedig o gynlluniau newydd posibl i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, felly mae'n hanfodol eich bod chi wedi cwblhau cymaint o'ch ffurflen â phosibl. Bydd yr wybodaeth yma yn cael ei defnyddio i asesu a blaenoriaethu'ch cais yn erbyn ceisiadau eraill sydd wedi'u cyflwyno. Byddwn ni'n argymell eich bod chi'n ystyried y posibilrwydd o gynnwys y gymuned gyfan cyn cyflwyno'ch cais, gan y bydd angen cyflwyno hyn fel tystiolaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y bydd unrhyw gynllun arfaethedig sy'n cael ei chynnwys ar y rhestr fer yn ystod y cam yma yn cael ei gyflwyno fel cais am gyllid i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2026. Caiff hyn ei wneud yn dilyn gwaith asesu a datblygu pellach.

*(Parhad trosodd...)*

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

Os dydyn ni ddim yn cynnwys eich cynllun ar ein rhestr fer, byddwn ni'n ei gadw ar ein system, ac yn ei ailasesu bob blwyddyn ynghyd â chynlluniau eraill a gaiff eu cyflwyno yn y cyfamser. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y ceisiadau sy’n cynnwys y ffurflenni cymeradwy fydd yn cael eu hystyried ar gyfer y cynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau
Mae taflen wybodaeth wedi'i hatodi sy'n cynnwys popeth mae angen i chi ei wybod am y cynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau. Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynglŷn ag unrhyw fater uchod, mae croeso i chi ffonio'r Garfan Diogelwch ar y Ffyrdd ar 01443 425001.

Yn gywir

**Uned Diogelwch y Ffyrdd**

**Safe Routes in Communities Schemes – Expression of Interest**

In recent years, Rhondda Cynon Taf Council has been invited to submit a bid for Safe Routes in the Communities (SRIC) schemes to the Welsh Government. The Safe Routes in Communities initiative is primarily aimed at encouraging greater participation in sustainable travel, in conjunction with improving safety throughout the wider community with a focus on areas around schools.

Whilst there is no guarantee of SRIC funding next financial year, the Council are preparing a programme of schemes so that we are in a position to submit bids should we be invited. Therefore, the Council would like to take this opportunity to invite Community Councils and Groups to submit a scheme request and assessment pro forma, if they believe there is a requirement to develop a scheme which will encourage more people to travel by more sustainable means such as cycling, walking or by public transport. Choosing to undertake short journeys by sustainable modes of travel can have many benefits. It can help reduce air pollution and vehicular congestion, which will have a positive impact on any school and community. Walking and cycling to school, local shops and other community facilities can help improve mental and physical health and overall wellbeing through increased physical activity and wider social inclusion.

If you would like to be involved in this initiative and/or considered for future funding bids to implement an improvement scheme within the vicinity of your community, please fully complete and return the scheme request and assessment pro forma in line with the supplementary guidance attached.

Applications must be submitted by **Monday 14th July 2025** via Roadsafety@rctcbc.gov.uk or by post to: Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH.

The Council are only able to submit a limited number of potential new schemes to Welsh Government each year, therefore, it is vital that your pro forma is completed as fully as possible, as this information will be used as a basis to assess and prioritise your request against numerous other submissions. We would highly recommend that you consider the possibility of full community involvement before submitting your request, as this will need to be provided as evidence to Welsh Government. Any potential schemes short listed at this point, may, following further assessment and development, be submitted as a bid for funding to the Welsh Government in February 2026.

If your potential scheme is not short listed, then it will remain on file and be reassessed on an annual basis along with others that may have been submitted. It is important to note that only scheme requests received in the approved pro forma format will be considered for the Safe Routes initiative.

Please find attached an information leaflet containing all you need to know about the Safe Routes in Communities initiative. If you have any questions or queries in relation to any of the above please do not hesitate to contact the Road Safety Team on 01443 425001.

Yours faithfully

**Road Safety Team**